# Y Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol

**HSC(4)-08-11 papur 2**
**Cyllideb Ddrafft 2012-13: Papur gan y Gweinidog dros Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol**

## Diben

Ysgrifennodd Cadeirydd y Pwyllgor at y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar 28 Gorffennaf yn ei gwahodd i roi tystiolaeth ar ei chynigion ar gyfer y Gyllideb Ddrafft ac yn gofyn iddi ddarparu papur mewn perthynas â'r Gyllideb Ddrafft.

## Cyflwyniad

Cyhoeddwyd y Gyllideb Ddrafft ar 4 Hydref 2011. Mae'r papur hwn yn rhoi gwybodaeth i'r Pwyllgor Iechyd a Gofal Cymdeithasol am gynigion cyllideb Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn y dyfodol ar gyfer 2012-13 hyd at 2014-15.

## Trosolwg o'r Gyllideb

Mae cyfanswm y gyllideb Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant wedi cynyddu swm net o £92.5 miliwn yn 2012-13 gyda chynnydd dangosol pellach o £108.7 miliwn a £109.1 miliwn yn 2013-14 a 2014-15 yn y drefn honno. Mae hyn yn cynnwys cyllideb refeniw ychwanegol o £103.3 miliwn yn 2012-13, £119.6 miliwn yn 2013-14 a £119.9 miliwn yn 2014-15, wedi'i wrthbwyso gan drosglwyddiadau o £10.8 miliwn i Brif Grwpiau Gwariant eraill ymhob un o'r tair blynedd.

Mae'r tabl ariannol cryno canlynol yn dangos yr effaith gyffredinol ar Brif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant:

**Tabl Ariannol Cryno:**

| | 2012-13 | 2013-14 | 2014-15 |
|---|---|---|---|
| **Refeniw** | **£m** | **£m** | **£m** |
| Llinell Sylfaen y Terfyn Gwariant Adrannol | 5954.1 | 5970.5 | 5970.5 |
| Dyraniad y Prif Grŵp Gwariant | 103.3 | 119.6 | 119.9 |
| Trosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant | (10.8) | (10.8) | (10.8) |
| Terfyn Gwariant Adrannol Diwygiedig | 6046.6 | 6079.3 | 6079.6 |
| **Cyfalaf** | | | |
| Llinell Sylfaen y Terfyn Gwariant Adrannol | 240.6 | 214.5 | 214.5 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| **Cyfanswm Cyffredinol Prif Grŵp Gwariant Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** | **6287.2** | **6293.8** | **6294.1** |

Nid yw'r tabl yn cynnwys Gwariant a Reolir yn Flynyddol (AME) sydd y tu allan i Derfyn Gwariant Adrannol Llywodraeth Cymru.

Mae'r arian adnoddau ychwanegol yn gysylltiedig â'r rhaglenni gwariant canlynol:

- **Cymorth ychwanegol i'r Byrddau Iechyd Lleol** - £83 miliwn ychwanegol yn 2012-13, £83 miliwn yn 2013-14 a £73 miliwn yn 2014-15 i sicrhau bod y Byrddau Iechyd Lleol mewn sefyllfa ariannol gynaliadwy yn y dyfodol.

- **Orthopedeg** – £15.3 miliwn ychwanegol yn 2012-13 gan godi i £16.6 miliwn yn 2014-15 i wella capasiti ac ailfodelu llwybrau gwasanaeth mewn ymateb i'r cynnydd sylweddol yn y galw am driniaeth Orthopedeg.

- **Rhaglen Dechrau'n Deg i Blant** – £5 miliwn ychwanegol yn 2012-13 gan godi i £30 miliwn yn 2014-15 i ehangu'r rhaglen yn unol ag ymrwymiad y Llywodraeth i ddyblu nifer y Plant sy'n cael budd ohoni.

- **Presgripsiynau am Ddim** - £0.4 miliwn ychwanegol yn 2014-15 i gadw'r budd cyffredinol hwn, gan sicrhau na fydd pobl ar incwm isel yn rhoi'r gorau i gymryd meddyginiaeth reolaidd a fyddai'n eu helpu i fyw bywydau iachach.

Yn ogystal â'r cynnydd mewn arian ar gyfer y rhaglenni penodol a ddyfynnwyd uchod, caiff yr holl ddyraniadau cyllid ar gyfer rhaglenni eraill yn y tablau cyllideb 'Camau gweithredu' yn atodiad 1 eu blaenoriaethu a'u hailgyfeirio er mwyn sicrhau y caiff pob un o ymrwymiadau Maniffesto rhaglen y Llywodraeth eu cyflawni.

Ceir trosglwyddiadau hefyd rhwng y Prif Grwpiau Gwariant, fel y manylir yn y tabl isod:

| | **2012-13** | **2013-14** | **2014-15** |
|---|---|---|---|
| | **£m** | **£m** | **£m** |
| Grant Codi Tâl Tecach i'r Grant Cynnal Refeniw | (10.1) | (10.1) | (10.1) |
| Grant Pobl Hŷn i'r Grant Cynnal Refeniw | (1.0) | (1.0) | (1.0) |
| Costau rhedeg Pwyllgor | 0.3 | 0.3 | 0.3 |

| | | | |
|---|---|---|---|
| Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru o'r Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu | | | |
| **Trosglwyddiad Net o Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant** | **(10.8)** | **(10.8)** | **(10.8)** |

**Blaenoriaethau Gwariant**

Nod cyffredinol yr Adran yw darparu gwasanaeth iechyd a gofal cymdeithasol o'r radd flaenaf i ddinasyddion Cymru gan arwain at well iechyd i bawb a llai o anghydraddoldebau. Mae'r Fframwaith Gwasanaeth, Gweithlu a Chyllid pum mlynedd ar gyfer y GIG, a luniwyd yn 2009, yn llywio'r agenda ddiwygio sydd ei hangen i gyflawni'r weledigaeth hon. Bydd yr Adran yn parhau ar y trywydd hwn tra'n parhau i ganolbwyntio ar gyflawni'r blaenoriaethau a nodwyd yn y Rhaglen Lywodraethu.

Er gwaethaf y buddsoddiad ychwanegol a gyhoeddwyd yn y gyllideb hon, mae'r amgylchedd ariannol yn heriol a bydd llwyddiant yn dibynnu ar drefniadau effeithlon ac effeithiol ar gyfer gweithio mewn partneriaeth ar draws Adrannau'r Llywodraeth, yn y GIG, gyda Llywodraeth Leol a chyda sefydliadau partner eraill.

Mae'r angen parhaus i reoli a lleihau costau wrth i'r galw am wasanaethau barhau i gynyddu yn atgyfnerthu'r angen i gynyddu momentwm a chyflymu'r gwaith i drawsnewid y ffordd mae'r GIG yn darparu ein gwasanaethau ac integreiddio pob agwedd ar y system ofal. Bydd rheoli'r galw am wasanaethau iechyd a lleihau'r straen ar wasanaethau aciwt yn allweddol o ran cynnal gwasanaethau cynaliadwy o ansawdd uchel ac felly bydd ffocws cryf ar wella iechyd a hunanofal yn parhau yn flaenoriaeth allweddol.

O ran Gwasanaethau Cymdeithasol, mae gwaith Comisiwn annibynnol wedi llywio'r broses ddiweddar o lunio dogfen strategol bwysig ym mis Chwefror 2011 o'r enw 'Gwasanaethau Cymdeithasol Cynaliadwy i Gymru: Fframwaith Gweithredu. Bydd y Bil Gwasanaethau Cymdeithasol, a fydd yn darparu fframwaith cyfreithiol cydlynus i Gymru i drawsnewid Gwasanaethau Cymdeithasol, yn greiddiol yn hyn o beth.

**Ymrwymiadau'r Maniffesto**

Mae'r Rhaglen Lywodraethu yn nodi'n benodol ymrwymiadau'r maniffesto y gellir eu priodoli'n uniongyrchol i Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant a gaiff eu cyflawni yn ystod y pedair blynedd nesaf a dyma fydd ein prif flaenoriaethau ar gyfer cyfnod y Llywodraeth hon. Bydd yr ymrwymiadau hyn yn rhoi ffocws llawer

cliriach ar wella canlyniadau iechyd a lleihau anghydraddoldebau. Mae'r ymrwymiadau hyn yn cynnwys gwaith i: wella mynediad i feddygon teulu, cychwyn trefn o archwiliadau iechyd blynyddol i bobl dros 50 oed, gwella gwasanaethau canser, gwasanaethau cardiac a gwasanaethau strôc ac iechyd plant, gwella amseroedd ymateb ambiwlansys a lleihau nifer y bobl sy'n mynd i adrannau achosion brys yn ddiangen.

Yn fwy penodol, mae'r Llywodraeth wedi amlygu pum addewid benodol sy'n arbennig o bwysig, sef 'Pump am Ddyfodol Tecach'. Mae Iechyd, Gwasanaethau Cymdeithasol a Phlant yn uniongyrchol gyfrifol am gyflawni dwy o'r addewidion hyn;

- Gwell mynediad i feddygfeydd meddygon teulu gyda'r nos ac ar fore dydd Sadwrn;

- Ehangu'r Rhaglen Dechrau'n Deg

**Crynodeb o'r Newidiadau i 'linellau'r gyllideb Camau Gweithredu' yn 2012-13**

<u>1. Cyflenwi'r GIG</u>

Yn 2012-13 a blynyddoedd yn y dyfodol mae'r Cam Gweithredu hwn wedi'i rannu yn ddau Gam Gweithredu fel y nodir isod:

- Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd

- Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu

<u>(a) Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd</u>

Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd yw'r Cam Gweithredu mwyaf yn y Prif Grŵp Gwariant o bell ffordd, gyda chyllideb refeniw flynyddol o £5 biliwn. Mae'r cam gweithredu yn darparu'r prif gyllid ar gyfer gofal y GIG (gwasanaethau ysbyty a gwasanaethau cymunedol). Dyrennir yr arian hwn i fyrddau iechyd lleol (BILl) ac Ymddiriedolaethau'r GIG. Mae'n cynnwys arian ar gyfer gofal sylfaenol (meddygon teulu, deintyddion a fferyllwyr). Y **cynnydd net** i'r cam gweithredu hwn yw £138.7 miliwn yn 2012-13. Mae'r swm hwn yn cynnwys:

i. Dyraniadau Ychwanegol:

- **£98.3 miliwn** o'r Cronfeydd Canolog Wrth Gefn o ran cyllid ychwanegol mewn perthynas â chymorth strwythurol iechyd a thriniaeth orthopedeg.

ii. Trosglwyddiadau rhwng Camau Gweithredu:

- **£32.3 miliwn** o Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu i'r dyraniad refeniw BILl, mewn perthynas â chyllid seilwaith SIFT
- **£7.7 miliwn** o Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl i'r dyraniad refeniw BILl, mewn perthynas â chyllid ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl
- **£1.6 miliwn** o Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth, mewn perthynas ag ymgyrch Cynllun Gwên
- **£1.2 miliwn** o Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i'r dyraniad refeniw BILl, mewn perthynas â chyllid ar gyfer CAMHS
- **£0.5 miliwn** o Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu, mewn perthynas ag Ymwelwyr o Dramor
- **£2.2 miliwn** i Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus, mewn perthynas ag ailalinio cyllid ar gyfer Iechyd Cyhoeddus Cymru
- **£0.9 miliwn** i Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach, mewn perthynas â chyllid ar gyfer camddefnyddio alcohol

iii. Trosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant

- **£0.2 miliwn** o'r Prif Grŵp Gwariant Gwasanaethau Canolog a Gweinyddu, mewn perthynas â chostau rhedeg Pwyllgor Gwasanaethau Iechyd Arbenigol Cymru

2. Cyflenwi Gwasanaethau GIG wedi'u Targedu

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cynnwys cyllid ar gyfer gwasanaethau gofal sylfaenol penodol (gan gynnwys Mentrau Gofal Llygaid), yn ogystal â chyllid ar gyfer amrywiaeth o ddatblygiadau eraill gan gynnwys: darparu gwybodaeth a thechnoleg, datrysiadau i'r GIG yng Nghymru a chymorth i Addysg Feddygol ar gyfer israddedigion. Ceir **gostyngiad net** o £32.8 miliwn i'r cam gweithredu hwn yn 2012-13 o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu:

- **£32.3 miliwn** i Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas â chyllid seilwaith SIFT Cymru Gyfan i'r dyraniad refeniw BILl

- **£0.5 miliwn** i Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd mewn perthynas ag Ymwelwyr o Dramor

3. Cefnogi Addysg a Hyfforddiant yng Ngweithlu'r GIG

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn cefnogi rhaglenni addysg a hyfforddiant mewn swydd i ddatblygu gweithlu'r GIG. **Nid oes unrhyw newid** yn y ffordd yr ariennir y Cam Gweithredu hwn

4. Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl

Darperir arian craidd ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl drwy'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd. Yn ogystal, mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu arian ar gyfer datblygu a gwella gwasanaethau iechyd meddwl i blant a phobl ifanc yn eu harddegau, oedolion a phobl hŷn yng Nghymru yn unol â'r Strategaeth Iechyd Meddwl, y Fframwaith Gwasanaethau Cenedlaethol a deddfwriaeth. Er enghraifft, mae'n darparu cymorth ar gyfer gwasanaethau dementia, anhwylderau bwyta a'r Gwasanaeth ar gyfer Cyn-filwyr ledled Cymru. Ceir **gostyngiad net** o £6.8 miliwn yn 2012-13 o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu:

- **£7.7 miliwn** wedi'i drosglwyddo allan i'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd. Mae hyn o ran arian ar gyfer gwasanaethau Iechyd Meddwl sy'n trosglwyddo i'r dyraniad refeniw BILl.

- **£0.9 miliwn** wedi'i drosglwyddo i mewn o'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant. Mae hyn o ran arian ar gyfer CAMHS. (Noder - mae £1.2 miliwn pellach o arian ar gyfer CAMHS hefyd wedi cael ei drosglwyddo i Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd.)

5. Cymorth Hosbis

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu arian ar gyfer mentrau gofal lliniarol Cymru gyfan ac hefyd arian rheolaidd ar gyfer hosbisau gwirfoddol. **Nid oes unrhyw newid** yn y ffordd yr ariennir y Cam Gweithredu hwn.

6. Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu arian i Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru, sy'n darparu: gwasanaethau iechyd cyhoeddus sy'n cynnwys gwella a diogelu iechyd, gwybodaeth a gwaith

ymchwil ym maes iechyd cyhoeddus, a rhaglenni sgrinio cenedlaethol ar gyfer pobl Cymru.

Ceir **cynnydd** o £3.4 miliwn yn 2012-13. Mae hyn o ganlyniad i drosglwyddiadau o amrywiol Gamau Gweithredu mewn perthynas ag arian i Iechyd Cyhoeddus Cymru.

7. Yr Asiantaeth Safonau Bwyd

Defnyddir hwn i ariannu Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru, un o adrannau annibynnol y Llywodraeth a sefydlwyd i ddiogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas â bwyd.

Ceir **gostyngiad** o £0.209 miliwn sy'n cynrychioli arian mewn perthynas â'r Arolwg Bwyd a Maeth sy'n cael ei drosglwyddo i'r Cam Gweithredu Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach.

8. Cyflawni Gweithgareddau Diogelu Iechyd ac Imiwneiddio Pwrpasol

Mae hwn yn darparu arian ar gyfer brechlynnau ar gyfer y rhaglen clefydau y gellir eu hatal. Mae hefyd yn ariannu amrywiaeth o ymgyrchoedd gwybodaeth i'r cyhoedd, yn ogystal â mentrau i fynd i'r afael â heintiau sy'n gysylltiedig â gofal iechyd. **Nid oes unrhyw newid** yn y ffordd yr ariennir y Cam Gweithredu hwn.

9. Hybu Gwella Iechyd a Gweithio Iach

Mae hwn yn cefnogi mentrau a chamau gweithredu sy'n cael eu datblygu i gefnogi *Ein Dyfodol Iach* gan gynnwys y strategaeth rheoli tybaco a darparu nyrsys mewn ysgolion uwchradd. Ceir **cynnydd net** o £0.541 miliwn yn 2012-13 o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu:

- **£0.9 miliwn** o'r Cam Gweithredu Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd, mewn perthynas ag arian ar gyfer camddefnyddio alcohol.
- **£0.2 miliwn** o Gam Gweithredu yr Asiantaeth Safonau Bwyd, mewn perthynas â'r Arolwg Bwyd a Maeth
- **£0.5 miliwn** i Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus, mewn perthynas ag arian i Iechyd Cyhoeddus Cymru

10. Mynd i'r Afael ag Anghydraddoldebau Iechyd a Datblygu Gweithio mewn Partneriaeth

Mae hwn yn cefnogi'r Gronfa Anghydraddoldebau Iechyd a'r rhaglen Cychwyn Iach. Ceir **gostyngiad** o £1.7 miliwn yn 2012-13 o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu:

- **£1.6 miliwn** i Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd sy'n trosglwyddo i'r Dyraniad Refeniw BILl, mewn perthynas ag arian ar gyfer rhaglen 'Cynllun Gwên'

- **£0.1 miliwn** i'r Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus, mewn perthynas ag arian Iechyd Cyhoeddus Cymru.

<u>11. Trefniadau Effeithiol ar gyfer Parodrwydd am Argyfyngau</u>

Mae'r arian yn y Cam Gweithredu hwn wedi'i gyfeirio at sefydlu a chynnal cronfeydd strategol o frechlynnau cyn-bandemig, cyffuriau gwrthfeirysol, gwrthfiotigau, mygydau wyneb, anadlwyr a nwyddau traul. Darperir arian hefyd i ddatblygu a chynnal cronfeydd o wrthfesurau iechyd eraill er mwyn ymateb i achosion damweiniol neu fwriadol o ryddhau sylweddau cemegol, biolegol, radiolegol, niwclear a ffrwydrol.

Mae'r gyllideb hon hefyd yn ariannu'r Tîm Ymateb mewn Lleoedd Peryglus (HART), sy'n galluogi'r gwasanaeth ambiwlans i ddarparu triniaethau mewn amgylcheddau halogedig neu lle mae'n anodd cael mynediad. **Nid oes unrhyw newid** yn y ffordd yr ariennir y Cam Gweithredu hwn.

<u>12. Datblygu a Gweithredu Ymchwil a Datblygiad er budd Cleifion a'r Cyhoedd</u>

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn ariannu gwaith y Sefydliad Cenedlaethol ar gyfer Ymchwil Gofal Cymdeithasol ac Iechyd (NISCHR) sy'n anelu at helpu i greu tystiolaeth o ansawdd uchel i lywio polisïau ac i fod o fudd i gleifion a'r cyhoedd. **Nid oes unrhyw newid** yn y ffordd yr ariennir y Cam Gweithredu hwn.

<u>13. Gwasanaethau Cymdeithasol Plant</u>

Mae hwn yn ariannu amrywiaeth o raglenni a datblygiadau polisi i gefnogi plant sy'n agored i niwed a gwasanaethau iechyd i blant, gan gynnwys rhoi Deddf Plant a Phobl Ifanc 2008 ar waith, ffioedd llysoedd i deuluoedd a phlant a Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd. Ceir **gostyngiad net** o £4.3 miliwn yn 2012-13 o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu:

- **£1.0 miliwn** o'r Cam Gweithredu Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn perthynas ag arian ar gyfer Plant sy'n Agored i Niwed

- **£1.2 miliwn** i Cyflenwi Gwasanaethau GIG Craidd sy'n trosglwyddo i'r Dyraniad Refeniw BILl, mewn perthynas ag arian ar gyfer CAMHS.

- **£0.9 miliwn** i'r Cam Gweithredu Cefnogi Polisïau a Deddfwriaeth Iechyd Meddwl, mewn perthynas ag arian CAMHS

- **£1.4 miliwn** i'r Cam Gweithredu Oedolion a Phobl Hŷn, mewn perthynas ag arian ar gyfer Awtistiaeth

- **£0.5 miliwn** i'r Cam Gweithredu Noddi Cyrff Iechyd Cyhoeddus, mewn perthynas ag arian ar gyfer Sgrinio Smotiau Gwaed Babanod Newyddanedig

- **£1.3 miliwn** i'r Cam Gweithredu Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd, i atgyfnerthu Cyllidebau Plant mewn Angen y Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd

<u>14. Plant, Pobl Ifanc a Theuluoedd</u>

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu amrywiaeth o gymorth i blant, pobl ifanc a theuluoedd i'w helpu i gyflawni eu potensial. Mae rhaglenni wedi'u targedu fel Teuluoedd yn Gyntaf a Dechrau'n Deg wedi'u cyfeirio at ein teuluoedd mwyaf difreintiedig er mwyn helpu i godi pobl o dlodi a rhoi gwell canlyniadau addysg, iechyd ac economaidd iddynt, ac mae rhaglenni ehangach yn cefnogi gofal plant a chwarae.

Mae'r Cam Gweithredu hefyd yn ategu dull gweithredu Llywodraeth Cymru o ran cynnwys Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn wrth ddatblygu polisïau a rhaglenni sy'n rhoi hawliau'r plentyn wrth wraidd yr hyn a wnawn. Ceir **cynnydd net** o £6.3 miliwn yn 2012-13 sy'n cynnwys:

i. Dyraniadau Ychwanegol:

   - **£5.0 miliwn** o'r Cronfeydd Canolog Wrth Gefn mewn perthynas â Dechrau'n Deg

ii. Trosglwyddiadau rhwng Camau Gweithredu:

   - **£1.3 miliwn** o'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant i atgyfnerthu Cyllidebau Plant mewn Angen y Grant Mudiadau Plant a Theuluoedd.

<u>15. Oedolion a Phobl Hŷn</u>

Mae'r Cam Gweithredu hwn yn darparu arian ar gyfer rhoi'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn a'r strategaeth Anableddau Dysgu ar waith, gan gynnwys y rhaglen adsefydlu yn dilyn cyfnodau hir yn yr ysbyty. Mae hefyd yn ariannu ymrwymiadau'r Cynllun Gweithredu Strategol i Ofalwyr a'r Mesur Gofalwyr. Ceir **gostyngiad net** o £7.8 miliwn yn 2012-13 sy'n cynnwys:

i. Trosglwyddiadau rhwng Camau Gweithredu:

- **£1.4 miliwn** o'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant, mewn perthynas ag arian ar gyfer Awtistiaeth

- **£1.9 miliwn** o'r Cam Gweithredu Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol, mewn perthynas â Grantiau i Awdurdodau Lleol

ii. Trosglwyddiadau rhwng Prif Grwpiau Gwariant

- Trosglwyddiad o **£11.1 miliwn** i Brif Grŵp Gwariant Llywodraeth Leol a Chymunedau ac i mewn i'r setliad Grant Cynnal Refeniw, mewn perthynas ag arian ar gyfer pecyn Camau Cyntaf a'r Strategaeth ar gyfer Pobl Hŷn

16. Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol

Mae hwn yn ategu'r broses o roi'r Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol i Gymru ar waith. Bydd yr arian hwn yn chwarae rhan bwysig wrth ddatblygu modelau gofal newydd ac ategu'r broses o drawsnewid gwasanaethau. Mae'r Cam Gweithredu hwn hefyd yn cynnwys yr arian ar gyfer cyllideb rhaglen yr Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol (AGGCC) ac mae'n cynnwys arian cynlluniau grant a chymorth i Gymdeithas y Cyfarwyddwyr (ADSS) a'r Sefydliad Gofal Cymdeithasol er Rhagoriaeth (SCIE). Ceir **gostyngiad net** o £2.9 miliwn yn 2012-13 o ganlyniad i'r trosglwyddiadau canlynol rhwng Camau Gweithredu:

- **£1.0 miliwn** i'r Cam Gweithredu Gwasanaethau Cymdeithasol i Blant mewn perthynas â Phlant sy'n Agored i Niwed

- **£1.9 miliwn** i'r Cam Gweithredu Oedolion a Phobl Hŷn mewn perthynas â Grantiau i Awdurdodau Lleol

17. Cyngor Gofal Cymru

Cyngor Gofal Cymru sy'n rheoleiddio'r gweithlu gofal cymdeithasol yng Nghymru ac mae'n gyfrifol am hyrwyddo a sicrhau safonau uchel drwy'r gweithlu gwasanaethau cymdeithasol a gofal cymdeithasol cyfan. Nid yw'r gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 4 Hydref wedi newid ers 2011-12. Fodd bynnag disgwylir y bydd y Cyngor yn nodi arbedion

effeithlonrwydd o tua 3% y flwyddyn nesaf, gyda'r gyllideb yn lleihau o'r ffigur presennol o £10.1 miliwn i £9.8 miliwn.

18. Comisiynydd Pobl Hŷn

Mae hwn yn darparu arian i'r Comisiynydd Pobl Hŷn. Mae'r swydd hon yn annibynnol - y swydd gyntaf o'i bath yn y byd - ac fe'i sefydlwyd i sicrhau bod buddiannau pobl hŷn yng Nghymru, sy'n 60 oed neu drosodd, yn cael eu diogelu a'u hyrwyddo. Nid yw'r gyllideb ddrafft a gyhoeddwyd ar 4 Hydref wedi newid ers 2011-12. Fodd bynnag, unwaith eto disgwylir y gellir sicrhau arbedion effeithlonrwydd o tua 3% y flwyddyn nesaf, gyda'r gyllideb yn lleihau £53k o'i lefel bresennol o £1.747m

19. Rhaglenni CAFCASS Cymru

Mae CAFCASS CYMRU yn sefydliad gwaith cymdeithasol sy'n canolbwyntio ar blant ac mae'n darparu cyngor arbenigol o safbwynt gwaith cymdeithasol i lysoedd achosion teuluol, y Llysoedd Sirol a'r Uchel Lys. Mae'r arian hwn yn cefnogi dyletswyddau craidd y sefydliad, yn ogystal â rhwymedigaethau o dan Ddeddf Plant a Mabwysiadu 2006 gan gynnwys darparu canolfannau cyswllt a gweithgareddau cyswllt. Mae trafodaethau manwl yn mynd rhagddynt o hyd ynghylch dyraniad y gyllideb derfynol a disgwylir y dyrennir mwy o arian i CAFCASS Cymru yn 2012-13, y tu hwnt i'r hyn sydd yng nghynigion y gyllideb ddrafft, a fydd yn arwain at arbedion effeithlonrwydd o tua 2% o gymharu â dyraniad y flwyddyn gyfredol.

20. Cyfalaf

Mae Rhaglen Gyfalaf Cymru Gyfan, sy'n cynnwys arian ar gyfer y Strategaeth Gwasanaethau Cymdeithasol a Pharodrwydd am Argyfyngau Iechyd, yn seiliedig ar gynlluniau cyfredol ag ymrwymiadau cytundebol a chynlluniau y mae'r Gweinidog Iechyd blaenorol a'r BILlau wedi'u hamlygu fel blaenoriaethau ar gyfer y blynyddoedd ariannol nesaf.
Mae'r Rhaglen yn ystyried dyraniadau'r gyllideb ddangosol a bennwyd yn ystod Ymarfer Asesu Ymchwil y llynedd, ac sy'n cynrychioli **gostyngiad sylweddol** mewn arian.

**HEALTH, SOCIAL SERVICES AND CHILDREN MAIN EXPENDITURE GROUP (MEG)**

**REVENUE BUDGET - Departmental Expenditure Limit** — **£000's**

| SPA | Actions | 2011-12 Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Changes | 2012-13 Draft Budget New Plans | 2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 Draft Budget New Plans | 2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Draft Budget New Plans |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| **NHS Delivery** | Delivery of Core NHS Services | 4,964,545 | 4,923,046 | 138,734 | 5,061,780 | 4,923,046 | 140,034 | 5,063,080 | 4,923,046 | 130,422 | 5,053,468 |
| | Delivery of Targeted NHS Services | 442,958 | 462,958 | -32,776 | 430,182 | 476,726 | -32,776 | 443,950 | 476,726 | -32,776 | 443,950 |
| | **Total NHS Delivery** | **5,407,503** | **5,386,004** | **105,958** | **5,491,962** | **5,399,772** | **107,258** | **5,507,030** | **5,399,772** | **97,646** | **5,497,418** |
| **Health Central Budgets** | Support Education & Training of the NHS Workforce | 188,826 | 188,826 | 0 | 188,826 | 188,826 | 0 | 188,826 | 188,826 | 0 | 188,826 |
| | Support Mental Health Policies & Legislation | 16,331 | 16,331 | -6,811 | 9,520 | 16,331 | -6,811 | 9,520 | 16,331 | -6,811 | 9,520 |
| | Hospice Support | 7,028 | 7,028 | 0 | 7,028 | 7,028 | 0 | 7,028 | 7,028 | 0 | 7,028 |
| | **Total Health Central Budgets** | **212,185** | **212,185** | **-6,811** | **205,374** | **212,185** | **-6,811** | **205,374** | **212,185** | **-6,811** | **205,374** |
| **Public Health & Prevention** | Sponsorship of Public Health Bodies | 63,785 | 63,785 | 3,361 | 67,146 | 63,785 | 3,361 | 67,146 | 63,785 | 3,361 | 67,146 |
| | Food Standards Agency | 3,651 | 3,651 | -209 | 3,442 | 3,651 | -209 | 3,442 | 3,651 | -209 | 3,442 |
| | Deliver Targeted Health Protection & Immunisation Activity | 11,720 | 11,720 | 0 | 11,720 | 11,720 | 0 | 11,720 | 11,720 | 0 | 11,720 |
| | Promote Healthy Improvement & Healthy Working | 15,219 | 15,218 | 541 | 15,759 | 15,218 | 541 | 15,759 | 15,218 | 541 | 15,759 |
| | Tackle Health Inequalities & Develop Partnership Working | 11,497 | 11,497 | -1,736 | 9,761 | 11,497 | -1,736 | 9,761 | 11,497 | -1,736 | 9,761 |
| | Effective Health Emergency Preparedness Arrangements | 5,921 | 5,921 | 0 | 5,921 | 5,921 | 0 | 5,921 | 5,921 | 0 | 5,921 |
| | Develop & Implement Research and Development for Patient & Public Benefit | 43,799 | 43,799 | 0 | 43,799 | 43,799 | 0 | 43,799 | 43,799 | 0 | 43,799 |
| | **Total Public Health & Prevention** | **155,592** | **155,591** | **1,957** | **157,548** | **155,591** | **1,957** | **157,548** | **155,591** | **1,957** | **157,548** |
| **Social Services** | Children's Social Services | 12,308 | 12,308 | -4,297 | 8,011 | 12,308 | -4,297 | 8,011 | 12,308 | -4,297 | 8,011 |
| | Children, Young People and Families | 94,294 | 96,341 | 6,340 | 102,681 | 99,398 | 21,340 | 120,738 | 99,398 | 31,340 | 130,738 |
| | Adult & Older People | 51,484 | 51,484 | -7,746 | 43,738 | 51,484 | -7,746 | 43,738 | 51,484 | -7,746 | 43,738 |
| | Social Services Strategy | 18,747 | 18,747 | -2,961 | 15,786 | 18,747 | -2,961 | 15,786 | 18,747 | -2,961 | 15,786 |
| | Care Council for Wales | 10,141 | 10,141 | 0 | 10,141 | 10,141 | 0 | 10,141 | 10,141 | 0 | 10,141 |
| | Older People Commissioner | 1,747 | 1,747 | 0 | 1,747 | 1,747 | 0 | 1,747 | 1,747 | 0 | 1,747 |
| | **Total Social Services** | **188,721** | **190,768** | **-8,664** | **182,104** | **193,825** | **6,336** | **200,161** | **193,825** | **16,336** | **210,161** |
| **CAFCASS Cymru** | CAFCASS Cymru Programmes | 10,138 | 9,635 | 0 | 9,635 | 9,167 | 0 | 9,167 | 9,167 | 0 | 9,167 |
| | **Total CAFCASS Cymru** | **10,138** | **9,635** | **0** | **9,635** | **9,167** | **0** | **9,167** | **9,167** | **0** | **9,167** |
| | **Total Revenue - Health, Social Services and Children** | **5,974,139** | **5,954,183** | **92,440** | **6,046,623** | **5,970,540** | **108,740** | **6,079,280** | **5,970,540** | **109,128** | **6,079,668** |

| SPA | Actions | 2011-12 Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Changes | 2012-13 Draft Budget New Plans | 2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 Draft Budget New Plans | 2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Draft Budget New Plans |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **CAPITAL BUDGET - Departmental Expenditure Limit** | | | | | | | | | | **£000's** |
| **NHS Delivery** | NHS Delivery | 247,573 | 230,279 | | 230,279 | 205,275 | | 205,275 | 205,275 | | 205,275 |
| | **Total NHS Delivery** | **247,573** | **230,279** | **0** | **230,279** | **205,275** | **0** | **205,275** | **205,275** | **0** | **205,275** |
| **Public Health & Prevention** | Effective Health Emergency Preparedness Arrangements | 5,418 | 5,039 | | 5,039 | 4,492 | | 4,492 | 4,492 | | 4,492 |
| | **Total Public Health & Prevention** | **5,418** | **5,039** | **0** | **5,039** | **4,492** | **0** | **4,492** | **4,492** | **0** | **4,492** |
| **Social Services** | General Capital Funding | 5,659 | 5,263 | | 5,263 | 4,691 | | 4,691 | 4,691 | | 4,691 |
| | Care Council for Wales | 23 | 22 | | 22 | 20 | | 20 | 20 | | 20 |
| | Children, Young People and Families | 3,430 | 0 | | 0 | 0 | | 0 | 0 | | 0 |
| | **Total Social Services** | **9,112** | **5,285** | **0** | **5,285** | **4,711** | **0** | **4,711** | **4,711** | **0** | **4,711** |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Total Capital - Health, Social Services and Children** | **262,103** | **240,603** | **0** | **240,603** | **214,478** | **0** | **214,478** | **214,478** | **0** | **214,478** |

| SPA | Actions | 2011-12 Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Changes | 2012-13 Draft Budget New Plans | 2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 Draft Budget New Plans | 2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Draft Budget New Plans |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | **REVENUE BUDGET - Annually Managed Expenditure** | | | | | | | | | | **£000's** |
| **NHS Impairments** | **NHS Impairments and Provisions** | 184,699 | 129,764 | 52,016 | 181,780 | 89,827 | -9,313 | 80,514 | 89,827 | 109,565 | 199,392 |
| | **Total NHS Impairments and Provisions** | **184,699** | **129,764** | **52,016** | **181,780** | **89,827** | **-9,313** | **80,514** | **89,827** | **109,565** | **199,392** |
| | **Total AME - Health, Social Services and Children** | **184,699** | **129,764** | **52,016** | **181,780** | **89,827** | **-9,313** | **80,514** | **89,827** | **109,565** | **199,392** |

| | **Health, Social Services and Children - Summary** | 2011-12 Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2012-13 Changes | 2012-13 Draft Budget New Plans | 2013-14 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2013-14 Changes | 2013-14 Draft Budget New Plans | 2014-15 Indicative Plans Supplementary Budget June 2011 | 2014-15 Changes | 2014-15 Draft Budget New Plans |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | | | | | | | | | **£000's** |
| | | | | | | | | | | | |
| | Revenue DEL | 5,974,139 | 5,954,183 | 92,440 | 6,046,623 | 5,970,540 | 108,740 | 6,079,280 | 5,970,540 | 109,128 | 6,079,668 |
| | Capital DEL | 262,103 | 240,603 | 0 | 240,603 | 214,478 | 0 | 214,478 | 214,478 | 0 | 214,478 |
| | **Total DEL** | **6,236,242** | **6,194,786** | **92,440** | **6,287,226** | **6,185,018** | **108,740** | **6,293,758** | **6,185,018** | **109,128** | **6,294,146** |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Annually Managed Expenditure** | **184,699** | **129,764** | **52,016** | **181,780** | **89,827** | **-9,313** | **80,514** | **89,827** | **109,565** | **199,392** |
| | | | | | | | | | | | |
| | **Total - Health, Social Services and Children** | **6,420,941** | **6,324,550** | **144,456** | **6,469,006** | **6,274,845** | **99,427** | **6,374,272** | **6,274,845** | **218,693** | **6,493,538** |